CYNGOR CYMUNED PENMYNYDD

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FERCHER
3 Ionawr 2018, NEUADD PENMYNYDD 7.30yh

YN BRESENNOL : Cyng D I Roberts, A Mummery, S Hughes, N Jones, R Davies, R Williams (Cyngor Sir), G Owen (Clerc)	
YMDDIHEURIADAU: Cyng A Evans, M Jones (Cyngor Sir)	
1	Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng D I Roberts.
2	**DATGAN DIDDORDEB** – Dim
3	**DERBYN COFNODION** Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod 01.11.17. Fe'u derbyniwyd fel rhai cywir. Cyng S Hughes yn cynnig a Cyng A Mummery yn eilio
4	**MATERION YN CODI O'R COFNODION**
4.1	**Tyllau yn y ffordd tu ol i Bryn ffynnon** - Mae Cyng A Mummery wedi trafod y mater gyda Dafydd Rowlands, Cyngor Sir a bydd y Cyngor Sir yn llenwi y tyllau
4.2	**Canolfan Penmynydd** - Dywedodd y Cadeirydd bod Mrs Brenda Williams wedi bod y glanhau, paentio a gweithio ar llawr y Ganolfan. Mae y Cadeirydd wedi cael cyfarfodydd gyda cwmni o Gaergybi a'r Cyngor Sir oherwydd problemau gyda trydan, hefyd am bod angen gwaith ar y landeri a'r waliau. Mae y Cyngor Sir wedi cytuno i gwneud y gwaith os bydd arian ar gael. Yr Urdd sydd wedi rhoi yr offer tân i mewn a bydd angen prawf ar y boiler nwy. Cynigodd Cyng A Mummery bod y Cyngor Cymuned yn cario ymlaen gyda'r gwaith sydd angen ei wneud cyn trosglwyddo y Ganolfan i'r pwyllgor newydd - Cyng R Davies yn eilio. Bydd y Cyngor yn derbyn taliadau (incwm) tan bydd y lês yn cael ei lofnodi.
4.3	**Lamp stryd gyferbyn a'r Ganolfan** - mae'r Cyngor Sir wedi gosod bulb newydd
4.4	**Tai Elusendai Penmynydd** - Mae'r Clerc yn disgwyl ymateb gan yr Eglwys yng Nghymru
4.5	**Bws yn parcio wrth ymyl y Glyn** - Mae'r Clerc yn disgwyl ymateb gan y Cyngor Sir
5	**Gohebiaeth Cyngor Ynys Mon**
	Cynllunio
5.1	41C25K Cais llawn ar gyfer creu mynedfa newydd i gerbydau yn Penisula Windows, Star - cais wedi'i dynnu'n ôl - gwybodaeth yn unig
	Pwyllgor Safonnau
5.2	Swyddi Gwag ar gyfer dau Aelod o'r Cynghorau Tref a Chymuned ar Bwyllgor Safonau Cyngor Sir Ynys Môn. Darllenwyd llythyr gan y Pwyllgor Safonnau yn dweud bod Cyng I Roberts (Bryngwran) a Cyng Keith Roberts, Cyngor Bae Trearddur wedi bod yn llwyddianus i llenwi y seddau gwag ar y pwyllgor.
6	**Gohebiaeth Ychwanegol**
6.1	Unllais Cymru - Garddwestau Palas Buckingham 2018 - dim diddordeb
	Llofnod **Cadeirydd** **07.02.18**

7	**MATERION ARIANNOL**
	Cytunwyd i dalu:
7.1	R Williams £400.00 (torri gwair)
7.2	Southern Electric £31.94
7.3	D I Roberts £280.52 (paent, sadolin)
7.4	Costau y Clerc £173.00
7.5	Adolygu cyflog y Clerc - symud ymlaen i'r agenda nesaf
7.6	Precept 2018/19 - symud ymlaen i'r agenda nesaf
7.7	Adolygu MANDAD y Banc - Cytunwyd - dim newidiadau
8	**MATERION ERAILL**
8.1	Trafodwyd cwyn am coed yn cael eu torri hwyr yn y nos wrth ymyl Minffordd, Penmynydd gan Scottish Power. Gofynwyd i'r Clerc cysylltu a Scottish Power.
8.2	Archwiliwr mewnol newydd - bydd y Clerc yn gwneud ymholiadau.
9	**Eitemau ar gyfer yr agenda nesaf**
	Dim
	Llofnod **Cadeirydd** **07.02.18.**